

Wythnos
Addysg Oedolion

Adult Learners'
Week

Gwobrau Addysg
Oedolion 2026

Ysbrydoli!TM
Inspire!TM

Adult Learning
Awards 2026



PAID STOPIO DYSGU | NEVER STOP LEARNING

D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE **L&W**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyflwyniad / Introduction

Cefin Campbell

Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ac Addysg Drydyddol
Deputy Minister for Skills and Tertiary Education

Mae'n bleser mawr cefnogi Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion eleni, sy'n dathlu llwyddiannau, dyfalbarhad a gwytnwch rhyfeddol dysgwyr sy'n oedolion ledled Cymru. Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod unigolion sydd wedi profi pŵer trawsnewidiol addysg a'r effaith gadarnhaol a gaiff ar fywydau pobl, teuluoedd a chymunedau.

Fel Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ac Addysg Drydyddol, mae addysg oedolion yn bwnc sy'n agos at fy nghalon. Ar ôl treulio llawer o fy mywyd proffesiynol yn gweithio ym maes addysg a chefnogi oedolion sy'n dysgu, rwyf wedi gweld drosof fy hun y gwahaniaeth y gall dysgu ei wneud pan roddir cyfle, cefnogaeth a hyder i bobl gymryd y cam nesaf. P'un ai'n ennill sgiliau newydd, symud ymlaen i gyflogaeth, dysgu Cymraeg neu ddarganfod diddordeb newydd, mae gan ddysgu y pŵer i drawsnewid bywydau.

Mae Wythnos Addysg Oedolion yn tynnu sylw at bwysigrwydd dysgu gydol oes ac yn dathlu oedolion sy'n datblygu eu sgiliau, yn magu hyder ac yn manteisio ar gyfleoedd newydd. Mae'n atgyfnerthu neges syml ond bwysig: mae dysgu i bawb, ar bob cam o fywyd, waeth beth fo'u hoedran, cefndir neu amgylchiadau.

Mae'r unigolion a gydnabyddir drwy wobrau Ysbrydoli! yn ymgorffori ysbryd dysgu gydol oes. Mae eu straeon yn enghreifftiau pwerus o ddyfalbarhad, uchelgais a thwf personol. Mae pawb a enwebwyd, a phob un o'r enillwyr wedi dilyn llwybr unigryw: mae rhai wedi mynd yn ôl i ddysgu ar ôl blynyddoedd lawer, tra bod eraill wedi adeiladu ar lwyddiannau presennol i

gyrraedd nodau newydd. Mae llawer wedi canfod cydbwysedd rhwng astudio a gwaith, ymrwymiadau teuluol, cyfrifoldebau gofalu a heriau eraill, gan ddangos dewrder, ymrwymiad a pharodrwydd i wneud y mwyaf o gyfleoedd newydd. Mae eu llwyddiannau yn dystiolaeth o'u hagwedd benderfynol eu hunain ac yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan fydd pobl yn credu ynddynt eu hunain ac yn cael eu cefnogi i gyflawni eu huchelgais.

I bawb sy'n cael gwobr eleni, llongyfarchiadau gwresog i chi. Mae eich llwyddiannau yn ysbrydoliaeth i eraill ac yn ein hatgoffa mewn ffordd bwerus nad yw hi byth yn rhy hwyr i ddysgu, tyfu a llwyddo. Gobeithio y bydd eich straeon chi yn annog llawer mwy o bobl ledled Cymru i fentro a chymryd y cam cyntaf hwnnw, i edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt a gweld manteision dysgu drostynt eu hunain. P'un ai ydych chi'n awyddus i ddysgu sgil newydd, meithrin eich hyder, gwireddu uchelgais hirdymor neu ddim ond eisiau rhoi cynnig ar ryw beth newydd, ni fu erioed amser gwell i ddechrau eich taith ddysgu.

Diolch a llongyfarchiadau.

It is a great pleasure to support this year's Inspire! Adult Learning Awards, which celebrate the remarkable achievements, determination and resilience of adult learners across Wales. These awards recognise individuals whose learning journeys demonstrate the transformative power of education and the positive impact it has on people's lives, families and communities.

As Deputy Minister for Skills and Tertiary Education, adult learning is a subject close to my heart. Having spent much of my professional life working in education and supporting adult learners, I have seen first-hand the difference that learning can make when people are given the opportunity, support and confidence to take the next step. Whether gaining new skills, progressing into employment, learning Welsh or discovering a new passion, learning has the power to transform lives.

Adult Learners' Week highlights the importance of lifelong learning and celebrates adults who are developing their skills, building confidence and embracing new opportunities. It reinforces a simple but important message: learning is for everyone, at every stage of life, regardless of age, background or circumstance.

The individuals recognised through the Inspire! Awards embody the spirit of lifelong learning. Their stories are powerful examples of perseverance, ambition and personal growth. Each nominee and winner has followed a unique path: some have returned to learning after many years, while others have built on existing achievements to

reach new goals. Many have balanced their studies alongside work, family commitments, caring responsibilities and other challenges, showing courage, commitment and a willingness to embrace new opportunities. Their achievements are a testament to their own determination and demonstrate what can be achieved when people believe in themselves and are supported to fulfil their ambitions.

To all those recognised through this year's awards, I offer my warmest congratulations. Your achievements are an inspiration to others and a powerful reminder that it is never too late to learn, grow and succeed. I hope your stories encourage many more people across Wales to take that first step, explore the opportunities available to them and experience the benefits that learning can bring. Whether you are looking to gain a new skill, build your confidence, pursue a long-held ambition or simply try something new, there has never been a better time to start your learning journey.

Thank you and congratulations.





Croeso i Wobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion 2026

Ar ran y Sefydliad Dysgu a Gwaith diolch i chi am fod yn rhan o'r dathliad anhygoel hwn o ddysgu gydol oes ac ymuno â ni i gydnabod llwyddiannau nifer o bobl ryfeddol.

Bob blwyddyn mae Gwobrau Ysbrydoli! yn ein hatgoffa am effaith addysg oedolion ar unigolion, teuluoedd, cymunedau a Chymru fel cenedl. O gael y cyfle cywir, y gefnogaeth gywir a llawer o benderfyniad, mae ein henillwyr yn dangos i ni y gall unrhyw un newid eu bywyd drwy ddysgu.

Nid oes unrhyw ddysgwr nodweddiadol a dim rysâit syml am lwyddiant; mae straeon ein henillwyr yn dangos realaeth dysgu gydol oes – a gaiff yn aml ei gymhlethu gyda rhwystrau lluosog i'w goresgyn a heriau ar hyd y ffordd. Anaml iawn mae cynnydd yn digwydd mewn llinell syth ac nid yw pob llwyddiant yn un y gellir ei fesur yn rhwydd, mae rhai yn llawer mwy personol. Mae'r cyfan yn haeddu cael eu dathlu.

Gyda bron 100 wedi eu henwebu eleni, roedd y broses feirniadu yn ffrainc ac yn her. Yn ddiethriad roedd pob stori yn dangos addysg oedolion ar ei gorau – dysgwyr ymroddedig yn cymryd camau enfawr i wella eu bywydau wedi eu cefnogi gan diwtoriaid ac ymarferwyr ymroddedig iawn. Nid oedd yn rhwydd dewis ein henillwyr ac rwy'n ddiolchgar i'r rhai a ymunodd â fi ar y panel beirniaid am eu hamser a'u cefnogaeth.

Darllen y straeon hyn fu uchafbwynt fy nghyfnod yn y swydd ers i mi ymuno â Dysgu a Gwaith ym mis Ionawr eleni. Ar gyfer y rhai

ohonom sy'n treulio ein hamser yn eiriol dros barhau cymorth a chyllid ar gyfer addysg oedolion, mae straeon ein henillwyr yn ei ddweud yn well nag a fedrem ni byth. Gyda hynny dan sylw rwy'n annog ein holl Aelodau o'r Senedd, ein cyllidwyr, partneriaid, gwneuthurwyr polisi, gwneuthurwyr penderfyniadau ac unrhyw un y mae dyfodol Cymru yn bwysig iddynt i ddarllen y straeon hyn, edrych ar fideos ein henillwyr a gwneud yn siŵr y gall Cymru barhau i fod yn wlad lle mae dysgu yn rhywbeth gydol oes.

Mae'n ffrainc enfawr i weithio gyda thim gwych Dysgu a Gwaith i drefnu'r gwobrau hyn a rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru, Medr a'n holl noddwyr a phartneriaid y mae eu cefnogaeth yn gwneud y digwyddiad hwn yn bosibl. Llawer o ddiolch hefyd i'r rhwydwaith o ddarparwyr addysg oedolion a phartneriaid ar draws y sector trydyddol am bopeth a wnewch i greu cyfleoedd i bobl ddysgu, lle bynnag a sut bynnag y gall hynny ddigwydd.

Llongyfarchiadau enfawr i'n henillwyr a'r rhai a'u cefnogodd ar eu teithiau dysgu. Hir oes i Gymru sy'n parhau i ddysgu ac yn parhau i gefnogi dysgwyr ar hyd eu bywydau. Mwynhewch eich noswaith bawb!

Michelle Matheron,
Cyfarwyddwr Cymru,
Sefydliad Dysgu a Gwaith

Welcome to the 2026 Inspire! Adult Learning Awards

On behalf of Learning and Work Institute, thank you for being part of this incredible celebration of lifelong learning and joining us to recognise the achievements of some remarkable people.

Each year the Inspire! Awards remind us of the impact that adult learning has on individuals, families, communities and Wales as a nation. Our winners show us that with the right opportunity, the right support, and a lot of determination anyone can change their life through learning.

There is no typical adult learner and no simple recipe for success; our winners' stories show us the reality of lifelong learning – often complicated with multiple barriers to overcome and challenges along the way. Progress is rarely linear and not all successes are those that can be easily measured, some are much more personal. All deserve to be celebrated.

With almost 100 nominees this year the judging process was a privilege and a challenge. Without exception every story showed us adult learning at its best – dedicated learners taking huge steps to improve their lives supported by highly committed tutors and practitioners. Selecting our winners was not easy and I am grateful to those who joined me on the judging panel for their time and their support.

Reading these stories has been the highlight of my time in post since I joined L&W in

January this year. For those of us who spend our time advocating for continued policy support and funding for adult education, our winners' stories say it better than we ever could. With that in mind, I urge all of our new Senedd Members, our funders, partners, policymakers, decision makers, and anyone who cares about the future of Wales, to read these stories, watch our winners' videos, and make sure that Wales can continue to be a place where learning is for life.

It is a huge privilege to work alongside the fantastic L&W team to organise these awards and we're grateful to Welsh Government, Medr, and all our sponsors and partners whose support makes this event possible. Many thanks also to the network of adult learning providers and partners across the tertiary sector for all you do to create opportunities for people to learn, wherever and however that may happen.

Huge congratulations to our winners and to those who supported them on their learning journeys. Here's to a Wales that continues to learn and continues to support learners throughout their lives. Have a great evening everyone!

Michelle Matheron,
Director for Wales,
Learning and Work Institute.

Trefn y Digwyddiad/ Order of Ceremony

Cyflwynir gan/Hosted by:
Nia Parry

Cyflwynydd Teledu a Thiwtor
TV Presenter and Tutor



- 6.00pm Cyrraedd a derbyniad diodydd
- 6.30pm Cinio
- 8.00pm Seremoni wobrwyo a gyflwynir gan Nia Parry,
Cyflwynydd Teledu a Thiwtor
- 8.05pm Anerchiad croeso ar ran cefnogwyr Gwobrau Ysbrydoli!
Vicky Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- 8.15pm **Cyflwyno Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion – Rhan 1**
Gwobr Siaradwr Newydd - Hannah Rowlatt
Oedolyn Ifanc – Cymerdwyaeth Uche – Georgia Miggins
Gwobr Oedolyn Ifanc - Javier Griffiths-Payne
Gwobr Heneiddio'n Dda - Julia Anderson
Gwobr Llais Dysgwyr - Honey Jenkins
Gwobr Sgiliau Gwaith - Aaron Jones
- 9.00pm **Egwyl**
- 9.10pm **Cyflwyno Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion – Rhan 2**
Gwobr Hywel Francis am Effaith Gymunedol - Agri-cation CIC
Gwobr Dysgu ar gyfer Iechyd Gwell- Daniel Mason
Gwobr Rhannu Dyfodol - Yassmein Hussein
Gwobr Sgiliau Hanfodol Bywyd - Shelby Weaver-Slaughter
Gwobr Newid Bywyd - Fred Murad
- 9.50pm Anerchiad y Gweinidog
Cefin Campbell AS, Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ac Addysg Drydyddol
- 10.00pm Sylwadau cloi
Michelle Matheron, Cyfarwyddwr Cymru, y Sefydliad Dysgu a Gwaith

- 6.00pm Arrival and drinks reception
- 6.30pm Dinner
- 8.00pm Award ceremony hosted by Nia Parry,
TV Presenter and Tutor
- 8.05pm Welcome address on behalf of the Inspire! Awards supporters
Vicky Jones, Deputy Director, The Open University in Wales
- 8.15pm **Inspire! Adult Learning Awards Presentation Part 1**
New Welsh Speaker Award - Hannah Rowlatt
Young Adult Learner - Highly Commended – Georgia Miggins
Young Adult Learner Award - Javier Griffiths-Payne
Ageing Well Award - Julia Anderson
Learner Voice Award - Honey Jenkins
Skills for Work Award - Aaron Jones
- 9.00pm **Interval**
- 9.10pm **Inspire! Adult Learning Awards Presentation Part 2**
Hywel Francis Award for Community Impact - Agri-cation CIC
Learning for Better Health Award - Daniel Mason
Shared Futures Award - Yassmein Hussein
Essential Skills for Life Award - Shelby Weaver-Slaughter
Life Change Award - Fred Murad
- 9.50pm Ministerial address
Cefin Campbell MS, Deputy Minister for Skills and Tertiary Education
- 10.00pm Closing remarks
Michelle Matheron, Director for Wales, Learning and Work Institute

Hannah Rowlatt

ENWEBWYD GAN / NOMINATED BY:

Dysgu Cymraeg Caerdydd

Learn Welsh Cardiff



Mae Hannah Rowlatt yn dweud fod dysgu Cymraeg ac addysg oedolion wedi ei helpu i ailddarganfod ei hyder ar ôl iddi golli ei hannibyniaeth yn ystod pandemig Covid-19.

Wedi cofrestru'n ddall a gyda chyflwr dirywiol ar ei golwg, mae Hannah yn Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd i'r RNIB.

Dechreuodd Hannah ar gwrs Mynediad yn 2022, gan fod llawer o'i chydweithwyr yn siarad Cymraeg. Gan fynychu dosbarthiadau wythnosol, symudodd ymlaen i gwrs Sylfaen ac mae ar fin dechrau cwrs Canolradd gyda Dysgu Cymraeg Caerdydd.

"Mae'r dosbarthiadau wedi cael effaith enfawr ar fy mywyd drwy ddatblygu sgil newydd i'w defnyddio yn y gwaith a gyda chyfeillion, a hefyd drwy fy atgoffa o'r hyn y gallaf ei wneud," esboniodd Hannah. "Mae fy hyder ac annibyniaeth wedi tyfu fel carlyniad i fod mewn amgylchedd cefnogol."

Gyda chefnogaeth ei thiwtor, sydd wedi addasu'r cwrs i'w wneud yn hygyrch a chynhwysol, cafodd hefyd ei hannog gan ddysgwyr eraill ac mae wedi mwynhau'r hwyl a gawsant yn dysgu gyda'i gilydd.

"Mae cymryd rhan mewn addysg oedolion wedi fy ngalluogi i ailddarganfod fy hyder, penderfyniad ac, yn bwysigaf oll, fi fy hun. Mae gen i ffordd bell i fynd ond mae'n gyffrous dechrau ar lefel nesaf y cwrs."

"Rwy'n credu y dylai pawb gael cyfle i ddysgu Cymraeg oherwydd ein bod yn byw yng Nghymru a hi yw ein iaith

genedlaethol. Mae cymryd rhan mewn addysg oedolion yn fwy dim ond y sgiliau rydych yn eu dysgu, mae hefyd am y profiad cadarnhaol a lles."

Mae Hannah yn defnyddio darlennydd sgrin ar ei gliniadur i ddarllen deunyddiau'r cwrs yn uchel. Defnyddiodd ei phrofiad yn dysgu i weithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i wneud deunyddiau'r cwrs yn fwy hygyrch.

'Mae fersiynau o'r deunyddiau hyn ar ddarlennydd sgrin yn awr ar gael i bobl eraill ledled Cymru sy'n ddall ac sydd â golwg rhannol.'

"Fy ngobaith yw y caiff pobl eraill sy'n ddall ac yn gweld yn rhannol eu hannog i ymuno â dosbarth, manteisio o'r adnoddau sydd ar gael yma a phrofi llawenydd dysgu fel y gwnes i," meddai Hannah.

Dywedodd Dr Orwig-Palmer, a enwebodd Hannah am y wobwr: "Gall dychwelyd i'r ystafell ddosbarth fel oedolyn fod yn anodd a gobeithiaf y bydd stori Hannah yn dangos yr amgylchedd croesawgar a chefnogol y gall tiwtoriaid a dysgwyr ei greu."

"Mae'n wych gweld sut mae Hannah wedi cymryd ei phrofiad personol o heriau hygyrchedd a throi hynny yn rhywbeth gwirioneddol gadarnhaol, gan ddefnyddio ei hangerdd i helpu i wella cyrsiau Dysgu Cymraeg ar gyfer dysgwyr sy'n ddall ac yn gweld yn rhannol."



"Learning Welsh has given me back my confidence and independence. I want other blind and partially sighted people to know that these courses can be accessible – because Cymraeg is our national language and it belongs to everyone."



Welsh learner Hannah Rowlatt says adult learning has helped her rediscover her confidence after the Covid-19 pandemic took away her independence.

Registered blind with a degenerative sight condition, Hannah, is Policy and Campaigns Officer for the RNIB.

Hannah began a Mynediad (entry level) course in 2022, as many of her colleagues speak Welsh. Attending weekly classes, she progressed to Sylfaen (foundation level) and is about to start Canolradd (intermediate) with Learn Welsh Cardiff.

"Attending the classes has had a profound impact on my life, not just in the development of a new skill to use in work and with friends, but in reminding me of what I am capable of," explained Hannah. "My confidence and independence have grown as a result of being in a supportive environment."

Supported by her tutor, who has adjusted the course to make it accessible and inclusive, she has also received encouragement from other learners and has enjoyed the fun they've had learning together.

"Participating in adult learning has enabled me to rediscover my confidence, determination and, most importantly, myself. I still have a long way to go but I'm excited to start the next level of the course."

"I think everyone should have an opportunity to learn Welsh because we live in Wales and it's our national language. Taking part in adult learning is not necessarily about the skills you learn, it's also about the positive experience and wellbeing."

Hannah uses a screen reader on her laptop to read aloud the course materials. She has used

her learning experience to work with the National Centre for Learning Welsh to make course materials more accessible.

Screen reader versions of these materials are now available to other blind and partially sighted people across Wales.

"My hope is that other blind and partially sighted people are encouraged to join a class, benefit from these improved resources and experience the joy of learning as I have," said Hannah.

Award nominator Dr Orwig-Palmer said: "Returning to the classroom as an adult can be daunting and I hope that Hannah's story shows what a welcoming and supportive environment tutors and learners can create."

"It's wonderful to see how Hannah has taken her personal experience of accessibility challenges and turned it into something truly positive, using her passion to help improve Learn Welsh courses for blind and partially sighted learners."



"Mae dysgu Cymraeg wedi rhoi fy hyder a'm hannibyniaeth yn ôl i mi. Rydw i eisiau i bobl ddall ac sy'n gweld yn rhannol wybod y gall y cyrsiau hyn fod yn hygyrch – oherwydd Cymraeg yw ein hiaith genedlaethol ac mae'n perthyn i bawb."



Georgia Miggins

ENWEBWYD GAN / NOMINATED BY:
Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes Dinas a
Sir Abertawe
City & County of Swansea Lifelong
Learning Service



Mae bryd Georgia Miggins ar ddod yn athrawes therapi cerdd a bod yn esiampl gadarnhaol ar gyfer pobl ifanc fel hi sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Wedi goresgyn cyfres o heriau yn ystod ei haddysg, mae Georgia bellach yn ffynnu. Mae wrthi'n gweithio tuag at Gymwysterau Lefel 1 mewn Sgiliau Hanfodol, mae'n canu gyda chôr roc, wedi ennill tystysgrif Gradd 5 mewn canu ac yn gobeithio symud ymlaen i Radd 8 i gefnogi ei huchelgais i ddod yn athrawes.

Ar ôl cynrychioli Anabledd Dysgu Cymru yn Senedd Ieuencid Cymru pan oedd yn 17 oed, mae Georgia yn aelod o Gyngor Lleisiau Mencap, ymddiriedolydd ieuengaf Anabledd Dysgu Cymru ac yn gwirfoddoli ar ddau fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg, sy'n anelu i wella bywydau pobl gydag anableddau.

Cafodd Georgia ddiagnosis o awtistiaeth, anableddau dysgu ac ADHD yn bedair oed, a bu'n dioddef o bryder oherwydd bwllo yn yr ysgol gynradd. Fodd bynnag, fe ffynnodd yn Ysgol Pen y Bryn lle'r oedd yn brif ferch ac yn aelod o Gyngor yr Ysgol.

Gan sylweddoli nad oedd llwybr coleg traddodiadol yn gweddu iddi, ofnai na fyddai dim byd ar ei chyfer nes iddi ddechrau dosbarth Sgiliau Hanfodol gyda Dysgu Gydol Oes Abertawe a'i helpodd i adennill ei hyder a'i chymhelliant.

"Rydw i wrth fy modd yn dysgu, cael gwybodaeth ar wahanol bynciau a datblygu sgiliau newydd," meddai Georgia. "Mae'n dangos fod ffyrdd eraill i gael cymwysterau. Mae'n dda cael pobl sy'n credu ynddoch chi."

"Dw i eisiau bod yn fodel rôl positif ac ysbrydoli pobl eraill ag anghenion dysgu ychwanegol i gael mynediad at yr un cyfleoedd â gefais i."

"Mae fy stori yn dangos na fydd pethau yn rhwydd bob amser ond mae'n bwysig dal i gredu ynddoch eich hun. Peidiwch byth â gadael i farn neu ragfarn pobl neu stereoteipiau benderfynu eich llwyddiant neu eich dyfodol. Fy arwyddair yw: "Credwch a chyflawni!"

Mae Karen Ward, Tiwtor Sgiliau Hanfodol Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes Abertawe, yn disgrifio Georgia fel "llysgennad gwyb" ac yn rhagweld dyfodol disglair iddi.

"Bydd Georgia yn arwain y ffordd wrth wneud gwahaniaeth ar gyfer pobl eraill fel hi," meddai. "Er ei bod yn cydnabod ei hanawsterau ei hun, mae'n croesawu her yn gadarnhaol ac yn symud ymlaen yn frwdfrydig, nid er ei budd ei hun ond gyda phenderfyniad i wella bywyd pobl eraill."

"Rydw i eisiau ysbrydoli pobl eraill sydd ag anableddau a heriau bywyd i gredu ynddynt eu hunain a dilyn yr un cyfleoedd a gefais i. Mae fy stori yn dangos fod llwyddiant yn dod o ddyfalbarhad, ac nid o dybiaethau pobl eraill neu stereoteipiau. Fy arwyddair "Credwch a Chyflawni!"



"I want to inspire others with disabilities and life challenges to believe in themselves and pursue the same opportunities I've had. My story shows that success comes from perseverance, not from other people's assumptions or stereotypes. My motto is "Believe it! Achieve it!"

Georgia Miggins has set her sights on becoming a music therapy teacher and being a positive role model for young people with additional learning needs like herself.

Overcoming a series of challenges during her education, Georgia is now flourishing. Currently working towards Level 1 Essential Skills Qualifications, she sings with Rock Choir, achieving a Grade 5 singing certificate and hopes to progress to Grade 8 to support her teaching ambition.

Having represented Learning Disability Wales on the Welsh Youth Parliament at the age of 17, Georgia is a Voices Council member for Mencap, the youngest Learning Disability Wales trustee and a volunteer for two West Glamorgan Regional Partnership boards, which aim to improve the lives of people with disabilities.

Diagnosed with autism, learning difficulties and Attention Deficit Hyperactivity Disorder at the age of four, she struggled with anxiety due to bullying at primary school. However, she thrived at Ysgol Pen y Bryn where she was head girl and a School Council member.

Soon realising that a traditional college path didn't suit her, she feared there wouldn't be anything for her until she started an Essential Skills class with Swansea Lifelong Learning who helped her regain her confidence and motivation.

"I love learning, gaining knowledge on different topics and developing new skills," said Georgia. "It shows that there

are other ways to get qualifications, and it's good to have people who believe in you because sometimes people are underestimated."

"I want to be a positive role model and inspire other people with additional learning needs to access the same opportunities I've had."

"My story shows that things will not always be easy but it's important to keep believing in yourself. Never let people's opinions, presumptions or stereotypes determine your success. My motto is Believe it! Achieve it!"

Karen Ward, Swansea Lifelong Learning Service Essential Skills Tutor, describes Georgia as an "amazing ambassador" predicting a bright future for her.

"Georgia is set to become a trailblazer in her pursuit of making a difference for others like herself," she said. "Whilst she recognises her own difficulties, she embraces challenges with positivity and enthusiastically forges ahead, not for personal gain, but with a determination to make life better for others."



Javier Griffiths-Payne

ENWEBWYD GAN / NOMINATED BY:

Coleg Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale College



"If someone had told my younger self I'd be preparing to study medicine at university, I'd have said they were joking. Returning to education has completely transformed my future and shows that it's never too late to start again."



Ar ôl ymadael â'r ysgol yn 14 oed heb unrhyw gymwysterau ffurfiol, dychwelodd Javier Griffiths-Payne i addysg oedolion ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Dim ond ddwy flynedd wedyn, mae wedi sicrhau lle i astudio meddygaeth ym Mhrifysgol Bryste, gan brofi nad yw hi byth yn rhy hwyr i newid trywydd eich bywyd.

Wedi'i ysbrydoli gan ei ddiweddar fam-gu a fu'n nyrs am 46 mlynedd, roedd Javier yn benderfynol i gael gyrfa mewn gofal iechyd ac adeiladu dyfodol y gallai fod yn falch ohono.

Roedd mynychu diwrnod agored yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro yn drobwynt: "Roedd fy nghalon ar yrfa mewn meddygaeth ond heb unrhyw gymwysterau, roedd yn anodd iawn canfod beth oeddwn ei angen fel myfyriwr aeddfed yn fy sefyllfa," meddai.

"Ar ôl y diwrnod agored, roedd gen i well syniad am y nod a osodais i fi fy hun drwy drafod y gwahanol lwybrau y gallwn eu dilyn."

Ymrestrodd ar gwrs Lefel 2 Mynediad i Astudiaeth Bellach ynghyd â TGAU mewn Bioleg gyda'r Brifysgol Agored ac nid yw wedi edrych yn ôl.

"Roedd yn hyfryd dysgu mewn amgylchedd lle nad oedd fy nffyrdd addysg ffurfiol yn fy nieithrio, gan mai dyma oedd un o fy mhryderon mwyaf am ddychwelyd fel myfyriwr aeddfed," meddai Javier.

Cafodd radd A mewn Mathemateg Uwch a'r graddau uchaf posibl ar gyfer Lefel 3 Mynediad i Addysg Uwch: Biowyddoniaeth. Fe wnaeth y cwrs dwys blwyddyn o hyd yn cynnwys cemeg, bioleg a biocemeg, ynghyd â modiwlau mewn sgiliau astudio a chyfathrebu, ei helpu i sicrhau lle ym Mhrifysgol Bryste.

Drwy ei holl astudiaethau, mae wedi bod yn gofalu am ei dad-cu anabl yn ogystal â bod yn gapten Tim Cymru mewn gemau fideo cystadleuol yn rownd gymhwysio Pencampwriaeth Byd Ffederasiwn Rhyngwladol E-chwaraeon Counter-strike (IESF).

Dyweddodd Kathleen Weatherhead, Tiwtor Cwrs Mynediad i Addysg Bellach ac athrawes Wyddoniaeth: "Mae Javier yn ddysgwr rhagorol. Dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, mae wedi dangos dro ar ôl tro frwdfrydedd gwirioneddol dysgwr aeddfed yn mwynhau'r cyfle i astudio a manteisio ar bob cyfle sy'n ei baratoi ar gyfer addysg uwch."

Mae Javier yn awyddus i annog eraill i ystyried dychwelyd i ddysgu. "Dyw hi byth yn rhy hwyr i ddechrau eto," meddai. "Pe byddai rhywun wedi dweud wrthyf pan oeddwn yn ifancach y byddwn yn astudio meddygaeth yn y brifysgol, byddwn wedi meddwl eu bod yn tynnu fy nghoes! Ond dyma fi. Wnaif i byth roi'r gorau i ddysgu!"

After leaving school at the age of 14 with no formal qualifications, Javier Griffiths-Payne returned to learning a decade later. Just two years on, he has secured a place to study medicine at the University of Bristol, proving that it is never too late to change the course of your life.

Inspired by his late grandmother, who dedicated 46 years of her life to nursing, Javier was determined to pursue a career in healthcare and build a future he could be proud of.

Attending an open day at Cardiff and Vale College (CAVC) proved pivotal. "I really had my heart set on a career in medicine but, with no qualifications, it was very hard to find what I needed as a mature student in my situation," he recalled.

"After the open day, I gained a clearer understanding of the goal I had set for myself by discussing the different pathways I could take."

He enrolled on a Level 2 Access to Further Study course alongside a GCSE in Biology with the Open University and has not looked back.

"It felt very welcoming to learn in an environment in which I was not alienated because of my lack of formal education, as this was one of my biggest worries about returning as a mature student," said Javier.

He secured an A grade in Higher Mathematics and the highest achievable grades for Level 3 Access to Higher Education: Bioscience. The intensive, one-year course, which featured

chemistry, biology and biochemistry, alongside modules in study skills and communication, helped him secure a place at the University of Bristol.

Throughout his studies, he provided care for his disabled grandfather as well as captaining Team Wales in competitive video gaming, during the Counter-Strike International Esports Federation (IESF) World Championship qualifiers.

Kathleen Weatherhead, Access to HE Course Tutor and Science teacher, said: "Javier is an exemplary learner. Over the past couple of years, he has demonstrated time and again the genuine enthusiasm of a mature learner enjoying the opportunity to study and to take advantage of every opportunity that prepares him for higher education."

Javier is keen to encourage others to consider returning to learning. "It is never too late to start again," he said. "If someone had told my younger self that I would be studying medicine at university, I would have said they were joking! But here I am. I'll never stop learning!"

"Tase rhywun wedi dweud pan oeddwn i'n iau y byddwn i'n paratoi i astudio meddygaeth yn y brifysgol un dydd, byddwn i wedi cymryd mai jocian oedden nhw. Mae dychwelyd i addysg wedi trawsnewid fy nyfodol yn llwyr a dangos nad yw byth yn rhy hwyr i ailddechrau."



Julia Anderson

ENWEBWYD GAN / NOMINATED BY:
Hyb Cymunedol Cwmpawd
Compass Community Hub



Yn 2009, roedd Julia Anderson yn mwynhau gyrfa lwyddiannus mewn gofal cymdeithasol ar ôl mwy na dau ddegawd yn y proffesiwn.

Roedd wedi esgyn i ddod yn rheolwr ond newidiodd popeth pan gafodd ddiagnosis o glefyd awto-imiwn cronig a arweiniodd at gyflyrau mwy cymhleth a olygodd iddi golli ei gallu i symud, yn ogystal â gyrfa yr oedd yn ei charu.

Cafodd Julia ddiagnosis o Glefyd Behçet, salwch prin a gwanychol oedd yn achosi nifer o broblemau meddygol iddi, yn cynnwys blinder llethol.

Roedd yn golygu na fedrai yrru car a'i chael yn anodd cerdded mwy nag ychydig o gamau. Daeth y bywyd cysurus oedd ganddi unwaith i ben, gan ei gadael yn ynysig am gyfnodau hir ac yn gynyddol ddibynnol ar bobl eraill.

Ond yn 2025 gwelodd Julia daflen yn hysbysebu cyrsiau crochenwaith yn Hyb Cymunedol Cwmpawd.

"Cefais y croeso cynhesaf o fy ymweliad cyntaf un," meddai. "Roedd y staff mor gyfeillgar a safon y cyfleusterau yn rhagorol.

"Roedd crochenwaith bob amser wedi apelio ataf ond nid oedd lleoedd eraill wedi bod yn gyfleus neu'n rhoi digon o gefnogaeth ar gyfer fy anghenion, ac fe wnaeth Cwmpawd sylweddoli hynny yn syth."

Fe wnaeth Julia ganfod ei hun eto drwy'r gwersi a dechreuodd ei hyder ddychwelyd. Roedd gweithio gyda chlai, cymdeithasu a chreu darnau yr oedd yn falch ohonynt yn ei gwneud yn llawen.

Dim ond dechrau ei hangerdd newydd dros ddysgu oedd crochenwaith. Mae cyrsiau Ailadeiladu Hyder drwy Ddysgu wedi dilyn mewn celf, crefft, ysgrifennu a hel achau, lle bu'n ymchwilio ei choeden deulu.

Mae dysgu wedi rhoi ymdeimlad newydd o bwrpas a llais i Julia. Daeth yn eiriolydd angerddol dros addysg oedolion, gan siarad yn aml am y gwahaniaeth cadarnhaol a wnaiff hybiau dysgu cymunedol i bobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd cronig.

"Rwy'n gefnogol iawn i'r Hyb oherwydd ei fod yn llythrennol wedi bod yn rhaff fywyd i fi a chynifer o bobl eraill sydd angen rhywle i droi ato," meddai.

Roedd Julie Jones yn fentor i Julia yn Hyb Cymunedol Cwmpawd a dywedodd fod ei stori yn dangos y rhan hanfodol y gall addysg oedolion ei chwarae wrth droi bywydau o amgylch.

"Mae wedi rhoi rhywbeth roedd Julia yn ofni ei bod wedi ei golli am byth – bywyd tu hwnt i'w chyflyrau. Drwy ddysgu, creadigrwydd a chymuned, mae wedi ailadeiladu gobaith, diben a balchder yn yr hyn y gall gyflawni."

"I am extremely supportive of the Hub because it has literally provided a lifeline to me and so many others who need somewhere to turn to."



In 2009, Julia Anderson was enjoying a flourishing career in social care after more than two decades in the profession.

She had worked her way up to managerial level, but everything changed when she was diagnosed with a chronic autoimmune disease that led to more complex conditions that took away her mobility, as well as a career she had loved.

Julia was diagnosed with Behçet's Disease, a rare and debilitating illness causing multiple medical issues, including overwhelming fatigue.

It meant she was unable to drive and struggled to walk more than a few steps. The comfortable life that she had known no longer existed, leaving her isolated for long periods and increasingly dependent upon others.

But in 2025, Julia came across a leaflet advertising pottery courses at Compass Community Hub.

"From my very first visit, I was given the warmest of welcomes," she said. "The friendliness of the staff was wonderful, and the quality of the facilities was second-to-none.

"Pottery had always appealed to me, but previous environments had not been accessible or supportive enough for my needs, which Compass was quick to recognise."

Julia found herself again through the lessons and her confidence started to return.

She found joy in working with clay, socialising and creating pieces she was proud of.

Pottery proved to be just the start of her renewed passion for learning. Rebuilding Confidence Through Learning courses have followed in art, craft, writing and ancestry, where she researched her family tree.

Learning has given Julia a renewed sense of purpose and a voice. She has become a passionate advocate for adult learning, often speaking about the positive difference community learning hubs make to people living with chronic health conditions.

"I am extremely supportive of the Hub because it has literally provided a lifeline to me and so many others who need somewhere to turn to," she said.

Julie Jones mentored Julia at Compass Community Hub and said that her story shows the vital role that adult learning can play in turning lives around.

"It has given Julia something she feared she had lost forever - a life beyond her conditions. Through learning, creativity and community, she has rebuilt hope, purpose and pride in what she can achieve."



"Rwy'n gefnogol iawn i'r Hyb oherwydd ei fod yn llythrennol wedi bod yn rhaff fywyd i fi a chynifer o bobl eraill sydd angen rhywle i droi ato."

Honey Jenkins

ENWEBWYD GAN / NOMINATED BY:

Coleg Penybont

Bridgend College



Roedd Honey Jenkins bob amser eisiau bod yn adeiladwr. Mae'n awr yn gosod y sylfeini ar gyfer cenhedlaeth newydd o fenywod ifanc i weithio mewn diwydiant adeiladu mwy cynhwysol ac amrywiol.

Gyda diagnosis o awtistiaeth a dyslecsia, dywedwyd wrth Honey sawl gwaith na fedrai fod yn friciwr ond fe wnaeth hynny hi yn fwy penderfynol fyth i lwyddo.

Ar ôl cwblhau Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 mewn Sgiliau Adeiladu, aeth Honey yn ei blaen i ennill ei Phrentisiaeth Lefel 3 mewn Gwaith Briciwr.

Tu hwnt i'w gofynion academiaidd creiddiol, fe wnaeth gwblhau hyfforddiant ychwanegol mewn gweithio ar uchder, codi a chario ac olwynion sgraffinio, gan sicrhau cymwysterau mewn iechyd a diogelwch sydd eu hangen i ragori ar safle adeiladu. Cwblhaodd ei blwyddyn olaf tra'r oedd yn feichiog gyda'i phlentyn cyntaf.

Daeth yn llysgennad, gan rannu ei stori drwy gyfweiliadau radio a digwyddiadau ar Ddiwrnod Rhyngwladol Menywod i brofi y gall menywod ffynnu mewn adeiladu a hefyd rymuso'r genhedlaeth nesaf i ymuno â'r proffesiwn.

"Rwyf wedi trefnu a chyflwyno llwyth o weithdai ymarferol mewn llawer o ddigwyddiadau ysgol," meddai Honey, a fydd yn dechrau ar her newydd gydag adeiladwr lleol yn dilyn ei chyfnod mamolaeth.

"Rwyf wedi siarad gyda disgyblion ysgol am fedru cyflawni eu huchelgais, hyd yn oed os yw pobl yn dweud wrthynt na fedrant wneud beth maent eisiau. Rwy'n brawf pendant o hynny.

"Fy nhad wnaeth fy ysbrydoli i weithio yn y diwydiant adeiladu. Roedd e yn gweithio fel tasgmon, ond fe wnes wynebu gymaint o rwystrau ac agweddau negyddol ar hyd y ffordd. Mae mam wedi bod yn gymorth enfawr ac fe wnaeth y brentisiaeth a'r fentoriaeth a gefais yn y coleg wneud i mi sylweddoli'r hyn y gallwn ei gyflawni. Nawr, does dim pendraw iddi."

Cafodd sgiliau ymarferol eu mireinio dan arweiniad arbenigol darlithwyr coleg a Meistr Prentisiaeth yn Taylor Wimpey, cyn i Honey ymuno â thîm cefnogol o fricwyr.

Parodwydd Honey i fynd yr ail filltir oedd yn sefyll allan i'w thiwtoriaid.

"Rydym yn anhygoel o falch ac mae'n ffrind i fod wedi cefnogi Honey ar hyd y daith," meddai Denise Brookes-Cooze, Pennaeth Dysgu Seiliedig ar Waith, Coleg Penybont. "Mae'n rhyfeddol; y math o brentis sy'n gwneud mwy na dim ond meistrol ei chrefft ond sy'n hybu newid diwylliannol ar gyfer menywod mewn adeiladu."

"Dydw i erioed wedi gadael i ddisgwyliadau pobl eraill ddiffinio beth alla i ei gyflawni. Fe wnaeth fy mhrentisiaeth fy helpu i ddod yn friciwr cymwysedig, ac rwy'n falch nawr o ysbrydoli eraill ac annog mwy o fenywod i ddilyn gyrfa ym maes adeiladu."

“

"I never let other people's expectations define what I could achieve. My apprenticeship helped me become a qualified bricklayer, and now I'm proud to inspire others and encourage more women to pursue a career in construction."

For as long as she can remember, Honey Jenkins wanted to be a builder. She is now laying the foundations for a new generation of young women to work in a more inclusive and diverse construction industry.

Diagnosed with autism and dyslexia, Honey was told many times that she could not be a bricklayer but it only made her more determined to succeed.

Having initially completed the Level 2 Foundation Apprenticeship in Construction Skills, Honey went on to achieve her Level 3 Apprenticeship in Bricklaying.

Beyond her core academic requirements, she proactively completed additional training in working at heights, manual handling and abrasive wheels, equipping herself with the robust health and safety credentials necessary to excel on a construction site. She completed her final year while pregnant with her first child.

She has become an ambassador, sharing her story through radio interviews and International Women's Day events to prove that women can thrive in construction and also empowering the next generation to join the profession.

"I have organised and delivered many school events with practical workshops," said Honey, who will embrace a new challenge with a local builder following her maternity leave.

"I have spoken to the school children about being able to achieve their goals,

even if people tell them that they cannot do what they want to do. I am living proof of this.

"I was inspired to work in the construction industry by my dad, who worked as a handyman, but I faced so many obstacles and negativity along the way. My mum has been a huge support and the apprenticeship and the mentoring that I received at college made me realise what I could achieve. Now, the sky is the limit."

Practical skills were honed under the expert guidance of college lecturers and an Apprentice Master at Taylor Wimpey, before Honey joined a supportive bricklaying team.

It was Honey's willingness to go the extra mile that stood out to her tutors.

"We are incredibly proud and privileged to have supported Honey throughout this journey," said Denise Brookes-Cooze, Head of Work Based Learning, Bridgend College. "She is remarkable; the kind of apprentice who doesn't just master her trade but actively drives cultural change for women in construction."



Aaron Jones

ENWEBWYD GAN / NOMINATED BY:

Hyfforddiant Cambrian
Cambrian Training Company

Mae Aaron Jones wedi dod yn esiampl sy'n ysbrydoli ar gyfer niwroamrywiaeth a grym trawsnewidiol dysgu gydol oes.

Mae'n gweithio fel uwch weinydd rhan-amser yn y Pencae Inn ger Abertawe a, gyda chefnogaeth ei gyflogwyr a Chwmni Hyfforddiant Cambrian, mae wedi cwblhau Prentisiaeth mewn Goruchwyliaeth ac Arweinyddiaeth Lletygarwch, gan ychwanegu at ei restr o lwyddiannau.

Yn ogystal â sgiliau gweithle, mae ei brentisiaeth wedi rhoi'r hyder iddo ddod yn siaradwr cyhoeddus am ei daith dysgu a niwroamrywiaeth. Yn llysgennad ar gyfer dysgu seiliedig ar waith, cafodd ei enw'n ddiweddar yn Brentis y Flwyddyn Cwmni Hyfforddiant Cambrian.

Dechreuodd addysg Aaron yn Ysgol Penmaes, ysgol anghenion addysgol arbennig yn Aberhonddu lle bu'n astudio o pan oedd yn dair oed tan ei fod yn 19. Enillodd wobrau efydd, arian ac aur Dug Caeredin, gwirfoddoli i weithio gyda phlant gydag anableddau yn Romania ac ennill Gwobr Barcud Aur Powys a Gwobr yr Uchel Siryf am Ragoriaeth.

Ymunodd Aaron â'r Pencae Inn fel gweithiwr cegin pan oedd yn 19 ond gwelodd ei gyflogwyr fod ei ddawn naturiol am wasanaeth cwsmeriaid yn golygu ei fod yn fwy addas ar gyfer dyletswyddau blaen tŷ.

Yn defnyddio'r sgiliau goruchwyllo, arwain a thechnoleg gwybodaeth a ddatblygodd yn ystod ei brentisiaeth, mae'n awr yn rheoli blaen tŷ, mentora staff newydd,

gofalu am gwsmeriaid a gwneud shiftiau achlysurol yn y gegin.

"Rwy'n falch iawn o fy mhrentisiaeth, yn arbennig gan fod rhai yn amau fy ngallu i lwyddo," meddai Aaron.

"Rydw i'n awtistig ac yn y gorffennol mae hynny wedi effeithio ar fy hyder a fy sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol. Fodd bynnag, yn hytrach na gadael i hynny fy nghyfyngu, rwyf wedi derbyn fy niwroamrywiaeth ac wedi gwthio fy hun i oresgyn y rhwystrau yma.

"O gael y cymorth cywir, gwaith caled a phenderfyniad, gall unrhyw un sy'n niwroamrywiol gyflawni'r un fath â fi".

Gan obeithio dod yn oruchwyliwr neu reolwr bar yn y dyfodol, mae mwy na 22,000 o bobl yn ei ddilyn ar ei sianel Aaron's Ales ar TikTok, lle mae'n adolygu cwrw.

Dyweddodd Alison Collingridge o Gwmni Hyfforddiant Cambrian, a'i enwebodd am y wobwr: "Mae Aaron yn fwy na dim ond stori o lwyddiant, mae'n enghraifft wych o sut y gall addysg oedolion newid bywydau.

"Mae'n weithiwr proffesiynol medrus mewn lletygarwch, yn arweinydd a gaiff ei barchu yn ei weithle ac yn esiampl ar gyfer pobl ifanc eraill gydag ag anghenion dysgu ychwanegol."

"I'm proud of my apprenticeship which has transformed my confidence as much as my skills. By embracing my neurodiversity and believing in my potential, I've overcome challenges and found that learning can open opportunities for anyone."

“

Aaron Jones has become an inspirational role model for neurodiversity and the transformative power of lifelong learning.

He works as a part-time, senior waiter at Pencae Inn, near Swansea and, supported by his employers and Cambrian Training Company, has completed an Apprenticeship in Hospitality Supervision and Leadership, adding to a list of achievements.

His apprenticeship has not only given him workplace skills but also confidence to become a public speaker about his learning journey and neurodiversity. An ambassador for work-based learning, he was recently named Cambrian Training Company's Apprentice of the Year.

Aaron's education began at Ysgol Penmaes, a special educational needs school in Brecon, where he studied from the age of three until 19. He achieved bronze, silver and gold Duke of Edinburgh Awards, volunteered to work with children with disabilities in Romania and was awarded a Powys Gold Kite Award and a High Sheriff's Award for Excellence.

Aaron joined Pencae Inn as a kitchen worker when he was 19, but his employers recognised that his natural flair for customer service made him better suited to front-of-house duties.

Using the supervisory, leadership and IT skills developed during his apprenticeship, he now manages front-of-house, mentors new staff, looks after customers and does occasional shifts in the kitchen.

"I am very proud of my apprenticeship, especially as there were some that doubted my ability to succeed," said Aaron.

"I am autistic which has, in the past, affected my confidence, communication and social interaction skills. However, rather than allowing this to limit me, I have embraced my neurodiversity and I have pushed myself to overcome these barriers.

"Anyone who is neurodivergent can achieve the same as me with the right support, hard work and determination."

Hoping to become a supervisor or bar manager in the future, he has more than 22,000 followers on his Aaron's Ales TikTok channel, where he reviews beers.

Award nominator, Alison Collingridge from Cambrian Training Company, said: "Aaron is not just a success story, he is a shining example of how adult learning can change lives.

"He's a skilled hospitality professional, a respected leader within his workplace, and a role model for other young people with additional learning needs."



act.

"Rwy'n falch o'm prentisiaeth, sydd wedi trawsnewid fy hyder a fy sgiliau. Trwy gofleidio fy niwroamrywiaeth a chredu yn fy mhotensial, rydw i wedi goresgyn heriau a darganfod y gall dysgu agor cyfleoedd i bawb."

“

Agri-cation CIC

ENWEBWYD GAN / NOMINATED BY:

Groundwork Gogledd Cymru
Groundwork North Wales

Mae Agri-cation, cwmni budd cymunedol sy'n seiliedig ar fferm waith ger Wrecsam yn cyflwyno rhaglenni dysgu sy'n helpu i ddatblygu sgiliau bywyd a chyflogadwyedd, gwella llesiant, meithrin hyder ac ailgysylltu gyda'u cymunedau.

Wedi'i sefydlu gan Cheryl Reeves a'i gŵr Andrew yn 2020 – yn union cyn pandemig Covid-19 – cymerodd ddwy flynedd arall i'r busnes fod yn gweithredu'n iawn.

O'u fferm eidion 110-erw, maent yn cefnogi pobl sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth, addysg a bywyd bob dydd.

Mae ffocws ar ddefnyddio natur, ffermio a'r awyr agored i addysgu pobl am gynhyrchu bwyd, sgiliau bywyd a'r amgylchedd, tra'n dod â chymunedau ynghyd.

Nid yw llawer o'r oedolion sy'n mynychu eu cyrsiau mewn gwaith, gan fod yn ynysig yn gymdeithasol neu'n byw gyda trawma, profedigaeth, cyflyrau iechyd hirdymor neu ddiffyg hyder. Yn aml, nhw yw'r rhai lleiaf tebygol o ymwneud ag amgylcheddau dysgu traddodiadol.

Maent yn coginio gyda'i gilydd, yn adeiladu prosiectau gwaith coed, ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar yn yr awyr agored, dysgu technegau llesiant a gofalu am anifeiliaid.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r tîm o dri wedi cyflwyno 23 cwrs i Groundwork Gogledd Cymru, gyda 232 o oedolion yn dilyn y cyrsiau.

Mae Agri-cation hefyd yn rhedeg cyrsiau cymunedol. Maent yn cynnwys Wellness in Wellies sy'n cefnogi pobl sy'n ynysig a phryderus, Dyddiau Fferm i'r Teulu ar gyfer rhieni, gofalu'r phlant yn ystod gwyliau ysgol, Men/



Women in Sheds, yn darparu sgiliau ymarferol a Chylch Menopôs ar gyfer menywod i ailgysylltu a gwella llesiant meddwl.

Mae'r tîm yn datblygu nifer o gyrsiau newydd, yn cynnwys sesiynau Lads & Dads i gryfhau perthnasoedd tad-mab, Punching Princesses i gefnogi llesiant corfforol a meddwl merched a chyfleoedd dysgu gydag achrediad Agored Cymru.

"Mae gan bob rhaglen ddiben creiddiol: dileu rhwystrau, meithrin hyder ac ailgysylltu pobl gyda chymuned a natur," esboniodd Cheryl. "Yr hyn sy'n gwneud Agri-cation yn wahanol yw ein bod yn cyflwyno dysgu a llesiant mewn ffordd sydd ddim byd tebyg i addysg ffurfiol."

"Rydym yn gweithio'n agos gyda'r rhai heb fod mewn gwaith, gan roi cyfleoedd iddynt gynyddu eu sgiliau a'u gwneud yn haws iddynt ddod o hyd i swydd. Drwy weithdai, rhaglenni hyfforddiant a mentoriaeth, rydym yn helpu unigolion i ennill yr hyder a'r arbenigedd sydd eu hangen i sicrhau cyflogaeth ystyrlon."

Dywedodd Louise Stokes, o Groundwork Gogledd Cymru, sy'n darparu dysgu oedolion yn y gymuned: "Mae effaith Agri-cation yn mynd lawer tu hwnt i ddatblygu sgiliau."

"Mae llawer o ddysgwyr yn disgrifio'r profiad fel un sy'n trawsnewid, gan sôn am wella iechyd meddwl, cynyddu hunan-gred, adnewyddu cymhelliant ac ymdeimlad clir o berthyn."



"Agri-cation's impact goes far beyond skills development. Many learners describe the experience as transformational, reporting improved mental health, increased self belief, renewed motivation and a strong sense of belonging."

Agri-cation, a community interest company based on a working farm near Wrexham, is delivering learning programmes that help people develop employability and life skills, improve wellbeing, build confidence and reconnect with their communities.

Founded by Cheryl Reeves and her husband, Andrew, in 2020 – just before the Covid-19 pandemic – it took another two years before the business was properly up and running.

From their 110-acre beef farm, they support people facing barriers to employment, education and everyday life.

There is a focus on using nature, farming and the outdoors to educate people about food production, life skills and the environment, while bringing communities together.

Many adults attending their courses are not in work, are socially isolated or living with trauma, bereavement, long-term health conditions or low confidence. They are often the least likely to engage with traditional learning environments.

They cook together, build woodwork projects, practice mindfulness outdoors, learn wellbeing techniques, and care for animals.

Over the past year, the team of three have delivered 23 courses for Groundwork North Wales, engaging 232 adult learners.

Agri-cation also runs community-based courses. These include Wellness in Wellies, supporting people experiencing isolation and anxiety, Family Farm Days for parents, carers and children during school holidays, Men/Women Sheds, providing practical skills and Menopause Circle for women to reconnect and improve mental wellbeing.

The team is developing a new range of courses, including Lads & Dads sessions to strengthen father-son relationships, Punching Princesses to

support women's physical and mental wellbeing and Agored Cymru accredited learning opportunities.

"Each programme shares a core purpose: removing barriers, building confidence and reconnecting people with community and nature," explained Cheryl. "What sets Agri-cation apart is our delivery of learning and wellbeing in a way that feels nothing like formal education."

"We work closely with those not in work, providing them with opportunities to upskill and enhance their employability. Through workshops, training programmes and mentorship, we help individuals gain the confidence and expertise needed to secure meaningful employment."

Award nominator, Louise Stokes, from Groundwork North Wales, a provider of adult community learning, said: "Agri-cation's impact goes far beyond skills development. Many learners describe the experience as transformational, reporting improved mental health, increased self belief, renewed motivation and a strong sense of belonging."



Daniel Mason

ENWEBWYD GAN / NOMINATED BY:

Hyb Cymunedol Cwmpawd
Compass Community Hub



Mae Daniel Mason yn dweud fod addysg oedolion wedi ei dynnu drwy "ddwy flynedd galetaf fy mywyd" a'i osod ar drywydd dyfodol gwell.

Fe wnaeth colli ei fam effeithio ar iechyd meddwl y dyn 29 oed gan arwain at iselder gwael. Cafodd Daniel ei atgyfeirio at Hyb Cymunedol Cwmpawd ym Merthyr Tudful gan Adferiad, sy'n darparu gwasanethau cymorth yn lleol ar gyfer iechyd meddwl.

"Roeddwn wedi dod yn ynysig o'r byd ac fe wnaeth colli fy mam fy ngadael yn teimlo'n unig iawn," meddai. "Roeddwn ar fin rhoi'r gorau iddi, heb wybod at bwy i droi a bywyd yn gyffredinol yn fy llethu. Mae'n deg dweud y teimlwn nad oedd unrhyw obaith i fi."

"Ond ar ôl cael fy nghyflwyno i Hyb Cymunedol Cwmpawd, gwelais fod cyfleoedd i ganfod cymorth a chymryd rhan mewn dysgu. Dyma lle dechreuodd fy nhaith i wella fy iechyd mewn gwirionedd."

Cofrestrodd Daniel ar gwrs Dysgu Drwy'r Awyr Agored a, gyda strwythur cymorth yn ei le, roedd yn fuan yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi ac y gallai gredu ynddo ei hun eto.

Tyfodd ei hyder drwy fynd ar deithiau hir yn ei ardal leol, gan ymuno â theithiau cerdded i ddarganfod lleoliadau newydd, blodau a bywyd gwyllt, a mentro ymhellach nag a wnaeth erioed o'r blaen.

Fe wnaeth pob profiad dysgu gynyddu ei hyder, yn aml gyda chamera yn ei law wrth iddo ddatblygu angerdd am ffotograffiaeth, gan arwain at gwblhau gweithdy pedair wythnos. Mae Daniel hefyd wedi cwblhau cymhwyster Agored Cymru yn seiliedig ar ei weithgareddau yn yr awyr agored.

"Mae'r daith ddysgu yma wedi newid popeth i fi," meddai. "Mae bod yng nghwmni pobl eraill, a chael gwared â'r unigrwydd a deimlwn a theimlo cysylltiad gyda natur a phrofi'r agwedd gadarnhaol y gallai ei gael ar fy hwyliau wedi bod o fudd mawr i fi."

Mae Daniel yn defnyddio ei brofiadau ei hun i godi ymwybyddiaeth a chefnogi eraill. Fe aeth hefyd ar daith feiciau elusennol o Ferthyr Tudful i Gaerdydd, gan godi £1,650, ac mae ganddo gynlluniau i godi mwy arian i roi'n ôl i'r rhai a wnaeth ei gefnogi.

Daeth yn batrwm gwyb i eraill yn Hwb Cymunedol Cwmpawd a dywedodd Kay Maybank, ei fentor cymorth cyflogaeth anabledd: "Mae taith Daniel gyda'i iechyd meddwl a dysgu yn parhau a bydd ei agwedd fwy cadarnhaol yn ei alluogi i symud ymlaen hyd yn oed ymhellach, ac i ddod o hyd i swydd maes o law."

“

"Learning saved my mental health and changed my life. After months of isolation, getting out into nature, connecting with others and gaining new skills have given me back my confidence, my purpose and the belief to look forward to a brighter future."

Daniel Mason has credited adult learning with pulling him through the "toughest two years of my life" and setting him on a pathway to a brighter future.

Losing his mother set the 29-year-old's mental health on a downward spiral leading to debilitating depression. Daniel was referred to the Compass Community Hub in Merthyr Tydfil by Adferiad, who provide local support services for mental health and bereavement.

"I had become isolated from the world and losing my mam left me feeling very lonely," he said. "I was on the brink of giving up, not knowing who to turn to and overwhelmed by life in general. It's fair to say, that I felt there really was no hope for me."

"But after being introduced to Compass Community Hub, I found there were opportunities to find support and get involved in learning. This is really where my journey to improve my health began."

Daniel enrolled on the Learning Through the Outdoors course, with a support structure in place, he soon felt appreciated, valued and could believe in himself again.

His confidence grew through regular hikes in his local area, joining walks to discover new locations, wildflowers and wildlife and venturing further than he has ever done before.

Each learning experience built his confidence, often with his camera in hand as he developed a passion for photography, leading to the completion of a four-week workshop. Daniel has also completed an Agored Cymru qualification based on his outdoor activities.

"This learning journey has been transformative for me," he said. "I have benefited through sharing the company of others, removing the isolation I was feeling and becoming connected to nature and experiencing the positivity it could have on my mood."

Daniel is using his own experiences to raise awareness and support others. He also did a charity bike ride from Merthyr Tydfil to Cardiff, raising £1,650, with more fundraising in the pipeline, to give back to those that have supported him.

He has become a shining light at Compass Community Hub where disability employment support mentor, Kay Maybank, said: "Daniel's journey with his mental health and learning continues and his more positive mindset will enable him to progress even further, eventually into employment."



“

"Achubodd dysgu fy iechyd meddwl a newidiodd fy mywyd. Ar ôl misoedd o unigrwydd, mae mynd allan i fyd natur, cysylltu ag eraill ac ennill sgiliau newydd wedi rhoi hyder, pwrpas a'r gred i mi edrych ymlaen at ddyfodol mwy disglair."



Yassmein Hussein

ENWEBWYD GAN / NOMINATED BY:

Coleg Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale College



"I arrived in the UK with the same passion and ambition I have today, but adult learning gave me greater awareness and a stronger love for knowledge and community. It has built my confidence, supported my children and inspired me to help others do the same."



Mae Yassmein Hussein yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'w chymuned wrth iddi ymdrechu i wella ei sgiliau a'i gwybodaeth drwy addysg oedolion.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r fam ifanc wedi cwblhau 13 cwrs addysg oedolion gyda Choleg Caerdydd a'r Fro a Chyngor Caerdydd. Mae rhai'n ymwneud ag anableddau dysgu, ADHD, awtistiaeth, dysgu fel teulu, rheoli straen a gwyddoniaeth.

Mae'n awr yn gobeithio gwneud cyrsiau seicoleg plant a busnes. Cyn cyrraedd Cymru, enillodd Radd mewn Fferylliaeth a Diploma Ôl-radd mewn Fferylliaeth Glinigol yn yr Aifft.

"Mae'n anodd cael tystysgrif sy'n cyfateb ym Mhrydain, felly fe wnes benderfynu edrych am ffordd arall i gefnogi fy mhlant ar eu taith addysgol, gan mai cadw teulu sefydlog ac integredig yn y gymuned yw fy mhrif flaenoriaeth," esboniodd Yassmein.

Mae addysg oedolion wedi gwella Saesneg Yassmein a'i helpu i gyflawni ei huchelgais ar gyfer ei theulu a'r gymuned.

I rannu gwybodaeth o'r cyrsiau, sefydlodd grŵp Facebook sy'n cefnogi mamau plant niwroamrywiol, yn arbennig yn ei mamwlad yn yr Aifft. Mae hefyd yn hyrwyddo addysg oedolion i famau eraill.

"Y prif reswm dros i mi ymuno ag addysg oedolion ar ôl symud i Brydain fwy na thair blynedd yn ôl oedd fy mod eisiau bod yn rhan o'r gymuned," esboniodd Yassmein, sydd â'i gŵr Ahmed, yn llawfeddyg orthopaedig yng Nghaerdydd.

"Mae pobl wedi bod mor groesawgar ers i ni gyrraedd. Ar hyn o bryd rwy'n datblygu syniad am fecws gyda ffocws cymunedol lle gall menywod, yn arbennig famau, ddysgu pobi a sgiliau eraill i'w helpu i sefydlu busnesau."

Wedi'i hysbrydoli gan wirfoddoli fel pobwr, sefydlodd fusnes yn gwneud bisgedi a theisennau. Mae hefyd yn gwirfoddoli gyda Common/Wealth Sounding Board, prosiect creadigol cymunedol yng Nghaerdydd.

"Rwy'n berson gwahanol i'r hyn oeddwn pan gyrhaeddais Brydain gyntaf – yn dal â'r un angerdd ac uchelgais, ond gyda mwy o ymwybyddiaeth a chariad cryfach at wybodaeth a gwaith cymunedol," ychwanegodd Yassmein.

Dywedodd Mags Richmond, tiwtor dysgu fel teulu Coleg Caerdydd a'r Fro: "Mae gan Yassmein freuddwydion mawr am y dyfodol ac mae'n batrwm o'r hyn y gellir ei gyflawni o gael y cymorth a'r cyfleoedd cywir. Mae ei hagwedd yn golygu ei bod yn ysbrydoli dysgu ei phlant ei hun ac mae'n amlwg yn anogaeth i bawb o'i chwmpas."

Yassmein Hussein is making a valuable contribution to the community where she lives as she strives to improve her skills and knowledge through adult learning.

Over the past two years, the young mother has completed 13 adult learning courses with Cardiff and Vale College (CAVC) and Cardiff Council. Some relate to learning disabilities, ADHD, autism, family learning, stress management and science.

She now hopes to do child psychology and business courses. Before arriving in Wales, she achieved a Degree in Pharmacy and a Post Graduate Diploma in Clinical Pharmacy in Egypt.

"Obtaining the equivalent certificate in the UK is difficult, so I decided to look for another way to support my children during their educational journey, as maintaining a stable and integrated family within the community is my top priority," explained Yassmein.

Adult learning has improved Yassmein's English and helped to achieve her family and community goals. To share knowledge gained from the courses, she formed a Facebook group which supports mothers of neurodivergent children, especially in her native Egypt. She also promotes adult education to other mums.

"The main reason I joined adult learning was that, when I moved to the UK more than three years ago, I wanted to be part of the community," explained Yassmein, whose husband, Ahmed, is an orthopaedic surgeon in Cardiff.

"People have been so welcoming since we arrived. Currently, I am developing an idea for a community-focused bakery where women,

especially mothers, can learn baking and other skills to help them start businesses."

Inspired by volunteering as a baker she has started a business baking cookies and cakes. She also volunteers with Common/Wealth Sounding Board, a community-led creative project in Cardiff.

"I am a different person compared to when I first arrived in the UK – still with the same passion and ambition, but with greater awareness and a stronger love for knowledge and community work," added Yassmein.

Mags Richmond, a family learning tutor at CAVC, said, "Yassmein has big dreams for the future and she is an example of what a person can achieve with the right support and opportunities. Her approach means that she is inspiring her own children's learning and providing obvious encouragement to all those around her."



"Cyrhaeddais y DU gyda'r un angerdd ac uchelgais ag sydd gen i heddiw, ond fe roddodd dysgu oedolion fwy o ymwybyddiaeth a chariad cryfach at wybodaeth a chymuned. Mae wedi meithrin fy hyder, wedi cefnogi fy mhlant ac wedi fy ysbrydoli i helpu eraill i wneud yr un peth."

Shelby Weaver-Slaughter

ENWEBWYD GAN / NOMINATED BY:
Coleg Penybont
Bridgend College



Mae Shelby Weaver-Slaughter yn defnyddio rhai o'r profiadau heriol a gafodd fel plentyn i lunio gyrfa wych mewn gofal cymdeithasol a helpu i newid bywydau pobl eraill.

Roedd Shelby yn cael ysgol yn anodd a, gan adael gyda dim ond un TGAU, teimlai fod ei hopsiynau yn brin. Ofnai fod ei breuddwyd o fynd i brifysgol allan o'i chynraedd.

Arweiniodd brwdfrydedd Shelby a'i hymroddiad i dwf personol y ffordd at brentisiaeth gyda Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr, gan sbarduno profiad addysg oedolion yng Ngholeg Penybont a newidiodd ei bywyd.

"Mae fy ysbrydoliaeth i barhau i ddysgu yn deillio o fy mhrofiad personol fy hun," meddai Shelby.

"Pan oeddwn yn ifancach, roedd gen i weithiwr cymdeithasol wnaeth fy nghefnogi drwy gydol cyfnod anodd yn fy mywyd. Cafodd effaith gadarnhaol arnaf a fy ysbrydoli i fod eisiau dod yn weithiwr cymdeithasol fy hun fel mod i'n medru cefnogi pobl eraill a gwneud gwahaniaeth i'w bywydau."

Roedd mathemateg yn neilltuoel o anodd, ond ar ôl cael diagnosis o dyscalculia, sy'n effeithio ar y ffordd mae'n prosesu a gweithio gyda rhifau, roedd Shelby yn deall yn well pam ei bod yn ei gael yn anodd a sut i'w oresgyn. Arweiniodd hyn at iddi gwblhau Sgiliau Hanfodol Lefel 2 Cyfathrebu a hefyd Lefel 2 Cymhwysio Rhif fel rhan o'i fframwaith Prentisiaeth.

Ar ôl gorffen Lefel 4 Prentisiaeth Uwch Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol, mae Shelby wedi bwrw ei golygon ar ei nod nesaf, sef astudio am radd prifysgol.

Tu hwnt i'w llwyddiant academiaidd ei hun, mae Shelby yn esiampl sy'n ysbrydoli ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol y dyfodol.

Mae'n defnyddio ei phrofiad ei hunan i gefnogi eraill drwy eu pryderon personol ac amheuan academiaidd, gan brofi fod addysg oedolion yn llwybr hygrych a grymus i yrfa gwerth chweil.

"Peidiwch â rhoi lan a manteisio i'r eithaf o bob cyfle sydd ar gael," meddai Shelby. "Rwyf wedi gweld drosof fy hun y gall addysg fod yn heriol, ond mae bob amser wahanol lwybrau i lwyddiant, hyd yn oed os nad yw'r llwybr traddodiadol yn gweithio i chi."

Disgrifiodd Abbie Foster, ei thiwtor coleg, daith Shelby fel un "newid bywyd", gan ychwanegu: "Mae'r trawsnewid yma yn mynd tu hwnt i lwyddiant academiaidd. Mae Shelby wedi datblygu hyder, annibyniaeth ac agwedd twf. Mae'n awr yn wynebu heriau mewn modd cadarnhaol a rhagweithiol, gan ddangos gwir effaith datblygu sgiliau hanfodol mewn newid bywydau."



"Developing my essential skills helped me overcome barriers I once thought would hold me back. Learning gave me the confidence, knowledge and qualifications to build a career I love and pursue my dream of going to university."

Shelby Weaver-Slaughter is drawing on some of the challenging experiences she went through as a child to carve out an inspirational career in social care and help to change the lives of others.

Growing up, Shelby struggled through school and, leaving with one GCSE, she felt her options were limited. She feared her dream of going to university was out of reach.

Shelby's enthusiasm and commitment to personal growth paved the way for an apprenticeship with Bridgend Council, sparking a life changing adult learning experience at Bridgend College.

"My inspiration to continue learning comes from my own personal experience," said Shelby.

"When I was younger, I had a social worker who supported me during a difficult time in my life. They had a positive impact on me and inspired me to want to become a social worker myself so that I can support others and make a difference in people's lives."

Maths was particularly difficult, but after being diagnosed with dyscalculia, which affects the way she processes and works with numeracy, Shelby gained a better understanding of why she struggled and how to overcome it. This has led to her completing both Level 2 Communication and Level 2 Application of Number Essential Skills as part of her Apprenticeship framework.

Having completed her Level 4 Social Services Practitioner Higher Apprenticeship, Shelby has set her sights on her next goal, which is to undertake a degree at university.

Beyond her own academic achievements, Shelby has been an inspiring role model for future social care practitioners.

She uses her own experience to support peers through their personal anxieties and academic doubts, proving that adult learning is an accessible, empowering path to a rewarding career.

"Don't give up and make the most of every opportunity available," Shelby said. "I have experienced first-hand that education can be challenging, but there are always different pathways to success, even if the traditional route does not work for you."

Her college tutor, Abbie Foster, described Shelby's journey as "life changing", adding: "This transformation goes beyond academic success. Shelby has developed confidence, independence and a growth mindset. She now approaches challenges positively and proactively, demonstrating the true impact of essential skills development in changing lives."



"Fe wnaeth datblygu fy sgiliau hanfodol fy helpu i oresgyn rhwystrau yr oeddwn yn credu unwaith y byddent yn fy nal yn ôl. Mae dysgu wedi rhoi'r hyder, gwybodaeth a chymwysterau i fi adeiladu gyrfa rwy'n ei charu a chyflawni fy mreuddwyd o fynd i brifysgol."

Fred Murad

ENWEBWYD GAN / NOMINATED BY:

Sbardun, Cyngor Sir Penfro

Springboard, Pembrokeshire County Council



Dechreuodd Fred Murad ar daith a newidiodd ei fywyd pan fu ei wraig, Claire, farw'n drasig o sepsis yn 2021. Gyda dau o blant ifanc i ofalu amdanynt, ei flaenoriaeth oedd sicrhau fod ganddo'r sgiliau i'w cefnogi gyda'u haddysg a symud tuag at ddyfodol mwy disglair.

Ar ôl ymuno â chwrs addysg oedolion Sbardun yn ysgol ei blant yn Sir Benfro, mae wedi croesawu pob cyfle dysgu a chwblhau 25 cwrs dros y pum mlynedd ddiwethaf, yn cynnwys dysgu fel teulu, rhifedd, llythrennedd, sgiliau digidol a weldio.

Gydag atgofion am ei wraig a'i blant yn ysbrydoliaeth iddo, mae Fred yn awr yn dechrau ar flwyddyn olaf Gradd Sylfaen mewn Addysg Gynhwysol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ond mae'n bwriadu gwneud blwyddyn ychwanegol i ennill gradd baglor.

Ar yr un pryd, mae'n gweithio tuag at Ddyfarniad Lefel 3 mewn Addysg, Addysgu a Dysgu yng Ngholeg Sir Benfro ac mae wedi newid gyrfa o reoli chefs i weithio fel tiwtor weldio yn y coleg. Ei uchelgais yw dod yn ddarlithydd i ysbrydoli dysgwyr eraill i lwyddo.

"Pe byddwn i wedi marw ac nid Claire, fyddwn i ddim wedi bod eisiau iddi hi roi lan, felly fedraf i ddim ei siomi," meddai Fred.

"Fe wnaeth Sbardun a Dysgu Sir Benfro agor y drws i fi ddysgu tra mod i'n rhoi gofal plant oedd ei fawr angen fel rhiant ar ben fy hun heb gymorth teulu."

Gan annog oedolion eraill i ddychwelyd i ddysgu, dywedodd Fred: "Os cewch gyfle, ewch amdani. Gallai'r cam cyntaf hwnnw i fynd yn ôl i ddysgu fod yr union gyfle rydych ei angen i agor drysau i'ch ysgogi i'r lefel nesaf."

"Rwy'n ei weld fel effaith domino – mae'r dysgu a'r buddsoddiad a wnewch yn awr, gyda help a chymorth staff, i gyd yn gamau bach fydd maes o law yn eich arwain at lle'r ydych eisiau bod."

"Gyda amgylchedd gwaith sy'n symud yn gyflym ac yn newid drwy'r amser, mae dysgu wedi sicrhau mod i'n cadw lan ac nad ydw i'n cael fy ngadael ar ôl."

Dywedodd Laura Phillips o Sbardun yng Ngholeg Sir Benfro, a enwebodd Fred: "Fel tiwtor, mae gan Fred yr un ffordd o feddwl ag oedd yn ei defnyddio er lles ei blant. Mae'n dweud nad yw'n mynd i anobeithio am neb ac mae eisiau ysbrydoli pob dysgwr i gredu ynddynt eu hunain a'u gallu i gyflawni."



"If you have the opportunity, take it. That first step back into learning can open new doors and create opportunities to progress. Continuous learning, supported by others, helps you grow, stay up to date, and reach your goals."

Fred Murad, began an inspiring and life-changing journey when his wife, Claire, tragically died from sepsis in 2021. With two young children to care for, his priority was to ensure that he had the skills to support them with their education and move towards a brighter future.

After joining a Springboard adult learning course at his children's school in Pembrokeshire, he has embraced every learning opportunity and completed 25 courses over the last five years, including family learning, numeracy, literacy, digital skills and welding.

Inspired by his wife's memory and his children, Fred is now starting the final year of a Foundation Degree in Inclusive Education at the University of Wales Trinity Saint David, but plans to do an extra year to achieve a bachelor's degree.

Simultaneously, he is working towards a Level 3 Award in Education, Teaching and Learning at Pembrokeshire College and he's changed career from managing chefs to working as a welding tutor at the college. His ambition is to become a lecturer to inspire other learners to succeed.

"If I had passed away instead of Claire, I wouldn't want her to give up, so I can't let her down," said Fred.

"Springboard and Learning Pembrokeshire opened the door for me to learn while providing childcare which was greatly needed as a lone parent without family support."

Encouraging other adults to return to learning, Fred says: "If you have the opportunity, go for it. That first step you take to get back into learning might just be the opportunity you need to open doors to propel you to the next level."

"I see it as a domino effect – the learning and investment you put in now, with the help and support of staff, are all little steps that eventually lead you to where you want to be."

"With the fast, ever changing working environment, learning has ensured that I keep up to date and am not left behind."

Fred's nominator, Laura Phillips from Springboard at Pembrokeshire County Council, said: "As a tutor, Fred has the same mentality as the one he adopted for the sake of his children. He says he is not going to give up on anyone and wants to inspire every learner to believe in themselves and their ability to achieve."



"Os gewch chi gyfle, ewch amdani. Gall y cam cyntaf yn ôl i ddysgu agor drysau newydd a chreu cyfleoedd i gamu ymlaen. Mae dysgu parhaus, gyda chefnogaeth eraill, yn eich helpu i dyfu, cadw i fyny, a chyflawni eich nodau."

act.

Yn ACT rydym yn credu mewn gwella bywydau trwy ddysgu ac mae pob enwebai yma heno yn brawf o'r mantra hwnnw.

Rydym wrth ein bodd i gefnogi'r gwobrau, yn enwedig y categori Sgiliau Gwaith, sy'n cydnabod y rhai sydd wedi dangos penderfyniad i wella eu hunain yn bersonol ac yn broffesiynol trwy eu dysgu.

Os ydych chi wedi ailhyfforddi ar gyfer swydd newydd, wedi dychwelyd i ddysgu ar ôl cyfnod i ffwrdd neu'n mynd i mewn i'r byd gwaith am y tro cyntaf, mae eich taith yn rhywbeth i fod yn falch ohono. Mae'r gwobrau hyn yn enghraifft berffaith bod dysgu yn gymaint mwy na

dim ond ennill cymwysterau, mae'n ymwneud â meithrin hyder ac archwilio cyfleoedd newydd.

Rydym yn cael ein hysbrydoli'n gyson gan y dysgwyr rydyn ni'n eu cwrdd, ac mae heno yn ddathliad o'ch holl gyflawniadau a'r dyfodol rydych chi'n parhau i'w adeiladu.

Llongyfarchiadau i bawb, rydym yn dymuno llwyddiant parhaol i chi yn beth bynnag a ddaw nesaf.

Richard Spear
Rheolwr Gyfarwyddwr
ACT

At ACT we believe in improving lives through learning and each nominee here tonight is proof of that mantra.

We're thrilled to be supporting the awards, particularly the Skills for Work category, which recognises those who have demonstrated determination to improve themselves personally and professionally through their learning.

Whether you've retrained for a new job, returned to learning after time away or are entering the world of work for the first time, your journey is something to be proud of. These awards are the perfect example that learning is so much more than just gaining qualifications,

it's about building confidence and exploring new opportunities.

We're constantly inspired by the learners we meet, and tonight is a celebration of all of your achievements and the futures you are continuing to build.

Congratulations to all, we wish you continued success in whatever comes next.

Richard Spear
Managing Director
ACT



Fel cefnogwr hirsefydlog i'r Wythnos Addysg Oedolion a Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion, rydym yn falch unwaith eto i ddathlu llwyddiant hynod y sawl a gafodd eu henwebu ac enillwyr eleni.

Mae gan Addysg Oedolion Cymru hanes balch o helpu pobl o bob cefndir mewn cymunedau ledled Cymru – gan drawsnewid bywydau drwy gyfleoedd dysgu cynhwysol ac ysbrydoledig.

Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gefnogi, cydnabod a dathlu dysgu gydol oes. Mae'r gallu i ddysgu ac addasu gydol oes yn allweddol i adeiladu unigolion, gweithluoedd a chymunedau gwybodus, hyderus, iach a chydnerth.

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cefnogi ystod eang o ddysgu ffurfiol ac anffurfiol ac mae'n hanfodol ar gyfer pawb – yn arbennig y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i addysg a chyflogaeth. Mae ein gwaith, wrth ochr ymchwil arall, yn parhau i ddangos gwerth dysgu hygyrch a sut y mae datblygu sgiliau a hyder yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywyd pobl.

Mae dysgu yn fwy na dim ond adeiladu gwybodaeth o amgylch proffesiwn. Mewn byd cynyddol gymhleth,

As a long-standing supporter of Adult Learners' Week and the Inspire! Adult Learning Awards, we are once again proud to celebrate the remarkable achievements of this year's nominees and winners.

Adult Learning Wales has a proud history of helping people from all walks of life, in communities across Wales – transforming lives through inclusive, inspirational learning opportunities.

It is crucial that we continue to nurture, recognise, and celebrate lifelong learning. The ability to learn and adapt throughout life is key to building informed, confident, healthy and resilient individuals, workforces, and communities.

Adult Community Learning (ACL) supports a wide range of formal, non-formal and informal learning, and is essential for everyone – especially for those who face the greatest barriers to education and employment. Our work, alongside other research, continues to demonstrate the value of accessible learning and how developing skills and confidence makes a real difference to people's lives.

mae'r un mor bwysig i ddatblygu'r gallu i ystyried, cysylltu syniadau a rhoi dysgu ar waith mewn ffyrdd newydd a chreadigol.

Mae cyfoeth o dystiolaeth wyddonol ac anecdotaidd fod dysgu yn gwella'r cof, iaith, datrys problemau a gwneud penderfyniadau. Mae'n cadw ein hymennydd yn actif ac yn iach – ac wrth i ni fyw yn hirach, mae hyn yn dod yn fwyfwy pwysig. Nid moethusrwydd yw dysgu gydol oes – mae'n hanfodol. I lawer, nid yn yr ysgol mae dysgu yn dechrau, ond ymhell ar ôl hynny – ac mae cymdeithas yn gyfoethocach o'r herwydd.

Llongyfarchiadau i holl enillwyr Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion a'r sawl a enwebwyd. Chi biau'r foment hon – mwynhewch eich llwyddiant ac ymfalchio yn eich taith. Cymeradwywn yr hyn yr ydych chi wedi ei gyflawni a dathlu grym newid bywyd addysg oedolion yn ei holl amrywiaeth a'i gyfoeth.

Kathryn Robson
Prif Weithredwr, Addysg Oedolion Cymru
Adult Learning Wales

Learning is more than building knowledge around a profession. In an increasingly complex world, it is just as important to develop the ability to reflect, connect ideas, and apply learning in new and creative ways.

There is a wealth of scientific and anecdotal evidence that learning enhances memory, language, problem-solving, and decision-making. It keeps our brains active and healthy – and as we live longer lives, this becomes ever more important. Lifelong learning is not a luxury – it is a necessity. For many, learning begins not at school, but well beyond it – and society is richer for it.

Huge congratulations to all Inspire! Adult Learning Award winners and nominees. This moment is yours – enjoy your success and take pride in your journey. We applaud your achievements and celebrate the vibrant, life-changing power of adult learning in all its diversity and richness.

Kathryn Robson
Chief Executive, Addysg Oedolion Cymru
Adult Learning Wales

Llongyfarchiadau gan ein noddwyr a'n cefnogwyr

Congratulations from our sponsors and supporters



Mae pawb yn Agored Cymru yn hynod falch o barhau â'n cysylltiad hirsefydlog â'r Sefydliad Dysgu a Gwaith a'r Gwobrau Ysbrydoli!

Rydym ni i gyd wedi clywed straeon ysbrydoledig am sut mae dysgwyr wedi goresgyn profiadau niweidiol a gwella eu bywydau trwy ddysgu. P'un a gawsoch eich enwebu, eich rhoi ar y rhestr fer neu'n enillydd dylech fod yn hynod o falch o'ch cyflawniadau. Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn cael cydnabyddiaeth am eu hymrwymiad i ddysgu a'u cyflawniadau.

Ein gweledigaeth yw galluogi unigolion o bob oed a gallu i ennill y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i wneud y gorau o'u potensial, cyfoethogi eu bywydau a chyfrannu at eu cymunedau ac economi gref

Dyma'r rheswm ein bod fel Corff Dyfarnu Cymreig sy'n creu cymwysterau dwyieithog i ddiwallu anghenion Cymru a'i dysgwyr yn parhau i weithio gyda'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i gydnabod cyflawniadau a dathlu straeon mor bwerus.

Mae'r Gwobrau Ysbrydoli! yn ymwneud â dysgwyr o bob oed yn cyflawni pethau gwych, yn aml yn groes i bob disgwyl. Rydym yn falch bod ein cymwysterau yn chwarae rhan mor bwysig wrth gydnabod eu cyflawniadau. Ni fu dysgu gydol oes erioed mor bwysig.

Mae'r rhwydweithiau addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn gryf ac yn cynnwys darparwyr â'u unig nod yw helpu dysgwyr i gyflawni eu nodau. Dysgu am hwyl, dysgu fel hobi, dysgu ar gyfer gwaith, neu ddysgu i greu cyfleoedd mewn lefelau uwch o addysg. Beth bynnag fo'r pwrpas mae Agored Cymru yn llwyr gefnogi'r hawl i ddysgu gydol oes o ansawdd uchel sy'n hanfodol i'r economi, i iechyd a lles, ac i gymunedau.

Llongyfarchiadau i bob enillydd Gwobr Ysbrydoli! a dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol.

Rydych chi i gyd yn ysbrydoliaeth!

Darren Howells
Prif Swyddog Gweithredol

Everyone at Agored Cymru is immensely proud to continue our longstanding association with Learning and Work Institute and the Inspire! Awards.

We have all heard inspirational stories of how learners have overcome adversity and improved their lives through learning. Whether you were nominated, shortlisted or a winner you should be incredibly proud of your achievements. It is vital that learners receive recognition for their commitment to learning and achievements.

Our vision is to enable individuals of all ages and abilities to achieve the skills and qualifications they need to maximise their potential, enrich their lives and to contribute to their communities and a strong economy

This is the reason that as a Welsh Awarding Body creating bilingual qualifications to meet the needs of Wales and its learners we continue to work with Learning and Work Institute to recognise achievements and celebrate such powerful stories.

The Inspire! Awards are about learners of all ages achieving great things, often against the odds. We are proud that our qualifications play such an important part in recognising their achievements. Lifelong learning has never been more important.

The education and training networks in Wales are strong and consist of providers whose sole aim is to help learners achieve their goals. Learning for fun, learning as a hobby, learning for work, or learning to create opportunities in higher levels of education. Whatever the purpose, Agored Cymru fully supports the right to high quality lifelong learning that is vital for the economy, for health and wellbeing, and for communities.

Congratulations to every winner of an Inspire! Award and the very best wishes for the future.

You are all an inspiration!

Darren Howells
Chief Executive Officer



Mae'n gyfnod cyffrous, gyda mwy a mwy o bobl yn mwynhau dysgu Cymraeg gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y corff arbenigol sy'n arwain y sector Dysgu Cymraeg.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2024-25, cwblhaodd 20,445 o bobl ein cyrsiau – y nifer uchaf ers i'r Ganolfan ddechrau cyhoeddi data yn 2017-2018, pan oedd y ffigwr yn 12,700.

Mae'r twf yma yn adlewyrchu'r cynnydd yng ngwaith y Ganolfan. Yn ogystal â 1500 o gyrsiau sy'n cael eu cynnal bob blwyddyn mewn cymunedau ledled Cymru – wyneb yn wyneb ac yn rhithiol - mae cynlluniau penodol ar gyfer teuluoedd, pobl ifanc, y gweithlu addysg, y sector chwaraeon a'r byd lechyd a Gofal, ymhlith eraill. Mae hyn yn rhan o'r strategaeth i sicrhau bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, a bod croeso i bawb fwynhau dysgu a siarad yr iaith.

Wrth galon ein gweithgareddau, mae arbenigedd dysgu iaith y Ganolfan, a'n model dysgu llwyddiannus, sy'n rhoi un llwybr dysgu clir i ddod yn siaradwr Cymraeg.

It's an exciting time, as more and more people enjoy learning Welsh with the National Centre for Learning Welsh – the specialist body that leads the Learn Welsh sector in Wales.

During the 2024-25 academic year, 20,445 people completed our courses – the highest number since the Centre started publishing data in 2017-2018, when the figure stood at 12,700.

This growth reflects the expansion in the Centre's work. In addition to 1,500 courses held each year in communities across Wales – both in-person and online – there are tailored programmes for families, young people, the education workforce, the sports sector, and health and care services, among others.

This forms part of the wider strategy to ensure the Welsh language belongs to us all, and that everyone is welcome to enjoy learning and speaking it.

At the heart of our work is the Centre's language expertise and our successful learning model, which provides one clear pathway to becoming a Welsh speaker.

Mae ein dysgwyr a'n siaradwyr newydd yn canmol eu cyrsiau a'u tiwtoriaid, ac yn croesawu pob cyfle i ddefnyddio eu Cymraeg, mewn llu o ddigwyddiadau dysgu anffurfiol sy'n cyfoethogi eu profiad dysgu.

Mae ennill sgil newydd yn rhoi hyder i chi, ac yn agor y drws ar bob math o gyfleoedd cyffrous, o wneud ffrindiau newydd, i ddewisiadau gyrfa, i ymgysylltu â'r gymuned.

Mae'r Ganolfan yn falch iawn o gefnogi'r Gwobrau Ysbrydoli! sy'n dathlu llwyddiannau oedolion o bob cefndir sydd wedi dilyn llwybrau amrywiol at addysg, a chael profiadau cadarnhaol sydd wedi newid eu bywydau.

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cyrraedd y rhestr fer, ac i'r holl enillwyr – edrychwn ymlaen at noson arbennig o ddathlu ac o rannu straeon sy'n dangos gwir werth dysgu gydol oes.

Dona Lewis
Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Our learners and new speakers praise their courses and tutors and embrace every opportunity to use their Welsh in a wide range of informal learning activities that enrich their learning journey.

Gaining a new skill builds confidence and opens the door on all sorts of exciting opportunities – from making new friends, to career options, to engaging with the local community.

The Centre is proud to support the Inspire! Awards, which celebrate the achievements of adults from all backgrounds who have followed their own unique learning journeys – often gaining life-changing experiences along the way.

Llongyfarchiadau - Congratulations to all the nominees and winners. We're looking forward to a special evening of celebration and story-telling that show the true value of lifelong learning.

Dona Lewis
Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn falch o barhau â'i chefnogaeth hirsefydlog i Wobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion.

Bob blwyddyn, mae'r gwobrau hyn yn taflu goleuni ar rai o'r straeon mwyaf ysbrydoledig yng Nghymru. Maent yn ein hatgoffa bod dysgu yn ymwneud â llawer mwy na chael gwybodaeth neu gymwysterau, mor bwysig ag yw'r rheini.

Mae hefyd yn ymwneud â hyder, cyfle, uchelgais, cysylltiadau, a'r dewrder i gymryd y cam nesaf, beth bynnag fo'ch cyfnod mewn bywyd.

Mae'r rhai sydd wedi'u henwebu, y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol, a'r enillwyr sy'n cael eu dathlu drwy'r gwobrau hyn yn dangos effaith ryfeddol dysgu oedolion ledled ein gwlad.

Mae eu llwyddiannau yn dangos sut y gall dysgu helpu pobl i newid gyrfa, gwella eu llesiant, darganfod diddordebau newydd, cefnogi eu teuluoedd, a chwarae rhan lawnach yn eu cymunedau.

Yn y Brifysgol Agored yng Nghymru, nid ydym byth yn blino clywed y straeon hyn. Maent yn ein hatgoffa'n bwerus pam mae dysgu oedolion mor bwysig, ac o'r penderfyniad, y gwytnwch a'r ymrwymiad a ddangosir gan ddysgwyr ac addysgwyr ledled Cymru bob dydd.

Ar ran pawb yn y Brifysgol Agored yng Nghymru, hoffwn estyn ein llongyfarchiadau cynhesaf i bawb sydd wedi cael eu henwebu, eu cynnwys ar y rhestr fer a'u cydnabod yng ngwobrau eleni. Dylech fod yn hynod falch o'ch cyflawniadau.

Mae eich llwyddiant yn bwysig nid yn unig oherwydd yr hyn y mae'n ei olygu i chi'n bersonol, ond hefyd oherwydd yr effaith ehangach y mae'n ei chael ar y bobl o'ch cwrmpas. Pan fydd un person yn dysgu, mae'r buddion yn ymledu ymhell ac agos.

Mae teuluoedd yn cael eu cryfhau. Mae cymunedau'n dod yn fwy cysylltiedig. Mae gweithleoedd yn elwa ar sgiliau a syniadau newydd. Mae Cymru yn dod yn genedl fwy hyderus, fwy galluog a mwy llewyrchus.

Mewn byd sy'n newid yn gyflym, nid yw dysgu erioed wedi bod yn bwysicach. Mae'r cyfleoedd a'r heriau rydym yn eu hwynebu fel cymdeithas yn ei gwneud yn fwyfwy angenrheidiol inni ddysgu, addasu a datblygu drwy gydol ein bywydau.

Mae addysg oedolion yn helpu i wneud hynny'n bosibl. Mae'n creu cyfleoedd i bobl ddatblygu sgiliau newydd, archwilio posibiliadau newydd, a gwireddu uchelgeisiau a allai fod wedi ymddangos allan o gyrraedd ar un adeg.

Dyna pam mae'r gwobrau hyn mor bwysig. Maent yn dathlu llwyddiant, ond maent hefyd yn anfon neges bwerus: nid yw hi byth yn rhy hwyr i ddysgu, ac ni ddylai neb deimlo bod ei gyfle i ddysgu wedi mynd rhagddo.

Mae'r Brifysgol Agored yn credu y dylai dysgu fod yn agored i bawb. Dylai fod yn ddigon hyblyg i gyd-fynd â gwaith, bywyd teuluol ac ymrwymadau eraill. Ceir talent ym mhob cymuned ac ym mhob oedran, ac mae pawb yn haeddu'r cyfle i gyflawni eu potensial.

Mae'r unigolion sy'n cael eu cydnabod drwy Wobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion yn llwyr adlewyrchu'r gred honno. Drwy eich cyflawniadau, rydych yn dangos beth sy'n bosibl pan roddir anogaeth, cefnogaeth a chyfle i bobl ddysgu.

Rydych hefyd yn hyrwyddwyr grymus dros ddysgu. Drwy rannu eich profiadau gyda ffrindiau, cydweithwyr, cymdogion ac aelodau o'r teulu, rydych yn helpu eraill i weld beth allai fod yn bosibl iddyn nhw hefyd. Mae eich straeon yn ysbrydoli eraill i gymryd y cam cyntaf ar eu taith ddysgu eu hunain.

Diolch i chi am ganiatáu i ni ddathlu ochr yn ochr â chi.

Llongyfarchiadau unwaith eto ar eich cyflawniadau arbennig, a diolch am bopeth rydych yn ei wneud i hyrwyddo gwerth dysgu ym mhob cwr o Gymru.

Ben Lewis FLSW

Pennaeth a Chyfarwyddwr Cenedlaethol, Y Brifysgol Agored yng Nghymru

The Open University in Wales is proud to continue its long-standing support for the Inspire! Adult Learning Awards.

Each year, these awards shine a light on some of the most inspiring stories in Wales. They remind us that learning is about far more than gaining knowledge or qualifications, important though those are.

It is also about confidence, opportunity, ambition, connection, and the courage to take the next step, whatever stage of life you are at.

The nominees, finalists and winners celebrated through these awards demonstrate the extraordinary impact of adult learning across our country.

Their achievements show how learning can help people change careers, improve their wellbeing, discover new interests, support their families, and play a fuller role in their communities.

At The Open University in Wales, we never tire of hearing these stories. They are powerful reminders of why adult learning matters, and of the determination, resilience and commitment shown by learners and educators across Wales every day.

On behalf of everyone at The Open University in Wales, I would like to offer our warmest congratulations to all those who have been nominated, shortlisted and recognised at this year's awards. You should be immensely proud of your achievements.

Your success is important not only because of what it means for you personally, but because of the wider impact it has on those around you. When one person learns, the benefits ripple outwards.

Families are strengthened. Communities become more connected. Workplaces gain new skills and ideas. Wales becomes a more confident, capable and prosperous nation.

In a world that is changing rapidly, learning has never been more important. The opportunities and challenges we face as a society increasingly require us to learn, adapt and grow throughout our lives.

Adult education helps make that possible. It creates opportunities for people to develop new skills, explore new possibilities, and realise ambitions that may once have seemed out of reach.

That is why these awards are so important. They celebrate achievement, but they also send a powerful message: it is never too late to learn, and no one should feel that their opportunity to learn has passed.

The Open University believes that learning should be open to everyone. It should be flexible enough to fit around work, family life and other commitments. Talent is found in every community and at every age, and everyone deserves the opportunity to fulfil their potential.

The individuals recognised through the Inspire! Adult Learning Awards embody that belief. Through your achievements, you demonstrate what becomes possible when people are given the encouragement, support, and opportunity to learn.

You are also powerful advocates for learning. By sharing your experiences with friends, colleagues, neighbours and family members, you help others see what might be possible for them too. Your stories inspire others to take the first step on their own learning journey.

Thank you for allowing us to celebrate alongside you.

Congratulations once again on your remarkable achievements and thank you for everything you do to champion the value of learning in every corner of Wales.

Ben Lewis FLSW

Principal and Nation Director,
The Open University in Wales



Wythnos Addysg Oedolion Adult Learners' Week

Gwobrau Addysg Oedolion 2026 Ysbrydoli! Inspire! Adult Learning Awards 2026

Caiff Gwobrau Ysbrydoli! eu dathlu fel rhan o'r Wythnos Addysg Oedolion, hyrwyddiad cenedlaethol o ddysgu gydol oes, a gaiff ei gydlyn gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr dysgu ledled Cymru.

Mae'r Wythnos Addysg Oedolion yn gynllun unigryw ar y cyd i hyrwyddo dysgu gydol oes gyda chyfuniad o gyrsiau, sesiynau blasur a chyngor ac arweiniad ar gael ar-lein ac wyneb yn wyneb. Rydym yn ddiolchgar i'r llu o bartneriaid a gyfrannodd gannoedd o gyrsiau newydd i lwyfan. www.adultlearnersweek.wales

Mae'r llwyfan hwn yn cynnwys casgliad o adnoddau o ddysgu cymunedol, addysg bellach ac addysg uwch, darparwyr hyfforddiant, sefydliadau celfyddydol a gwirfoddol, undebau llafur a busnes.

Caiff Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion eu cydlyn gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith a'u noddi gan Lywodraeth Cymru, ACT, Addysg Oedolion Cymru, Agored Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

The Inspire! Awards are celebrated as part of Adult Learners' Week, a nationwide promotion of lifelong learning, coordinated by Learning and Work Institute in partnership with the Welsh Government and learning providers across Wales.

Adult Learners' Week is a unique collaboration to promote lifelong learning with a combination of online and in-person courses, tasters and advice and guidance. We are grateful to the many partners who contributed hundreds of free courses to the Adult Learners' Week platform. www.adultlearnersweek.wales

This platform contains a collection of resources from community learning, further and higher education, training providers, arts and voluntary organisations, trade unions and business.

The Inspire! Adult Learning Awards are co-ordinated by Learning and Work Institute and sponsored by the Welsh Government, ACT, Adult Learning Wales, Agored Cymru, the National Centre for Learning Welsh and The Open University in Wales.



Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid 2027: Enwebiadau yn agor yn fuan

'Mae gwobrau blynyddol Ysbrydoli! Tiwtoriaid yn dathlu'r tiwtoriaid a mentoriaid rhagorol y mae eu hangerdd, ymroddiad a chefnogaeth yn helpu oedolion i feithrin hyder, cyflawni eu nodau a gwireddu eu potensial drwy ddysgu gydol oes.

Bydd enwebiadau yn agor yn yr hydref gan roi cyfle i ddysgwyr a sefydliadau i gydnabod tiwtoriaid a mentoriaid a aeth yr ail filltir i ysbrydoli a chefnogi oedolion sy'n ddysgwyr.'

Mae'r gwobrau hyn yn gyfle i ddweud diolch yn fawr a dathlu cyfraniad hanfodol tiwtoriaid a mentoriaid i ddysgu gydol oes ledled Cymru.

Cadwch lygad ar agor am fwy o wybodaeth ar y gwobrau hyn yn yr hydref!
www.sefydliaddysguagwaith.cymru/

Inspire! Tutor Awards 2027: Nominations opening soon


The annual Inspire! Tutor Awards celebrate the outstanding tutors and mentors whose passion, dedication and support help adults build confidence, achieve their goals and realise their potential through lifelong learning.

Nominations will open this autumn, offering learners and organisations the opportunity to recognise tutors and mentors who have gone above and beyond to inspire and support adult learners.

The awards are a chance to say thank you and celebrate the vital contribution tutors and mentors make to lifelong learning across Wales.

Look out for more information about this year's awards this autumn: www.learningandwork.wales/





#paidstopiodysgu
#neverstoplearning

 Learning and Work Institute

 Learning and Work Institute

 @learnworkcymru

 @learnworkcymru.bsky.social

Dewch yn Gefnogwr Sefydliad Dysgu a Gwaith a derbyn gwybodaeth am ein gwaith diweddaraf, newyddion a digwyddiadau, yn ogystal â'n cylchlythyr misol.

Become a Learning and Work Institute Supporter for free and receive information about our latest work, news and events, as well as our monthly newsletter:



7 Coopers Yard
Caerdydd/Cardiff
CF10 5NB
+44(0)29 2037 0900
enquiries@learningandwork.org.uk

www.sefydliaddysguagwaith.cymru / www.learningandwork.wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

